Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad

# Trefniadau Trochi yn y Gymraeg yng Nghyngor Dinas Casnewydd

**Y Ganolfan Ddinesig**
**Casnewydd**
**NP20 4UR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o roi ein trefniadau arolygu newydd ar brawf. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod ychydig yn wahanol mewn fformat i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn â Chyngor Dinas Casnewydd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Dinas Casnewydd |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 07/05/2024 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae pedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ac un ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Adeg yr arolygiad, roedd dwy ganolfan trochi yn y Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol; canolfan gynradd wedi'i lleoli yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli a chanolfan uwchradd wedi'i lleoli yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed.

Cyflwynwyd darpariaeth trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol ym mis Ebrill 2017. I ddechrau, defnyddiodd yr awdurdod lleol ddull cydweithredol. Arweiniodd hyn at roi protocol peilot ar waith o fis Ebrill 2017. Cadarnhaodd y protocol y byddai pob un o'r tair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi trochi yn lleol ar sail wedi'i harwain gan anghenion. Yn dilyn gwerthusiad o effeithiolrwydd y Protocol Trochi Hwyrddyfodiaid Cyfrwng Cymraeg, penderfynwyd creu dosbarth trochi yn y Gymraeg mewn un o'r ysgolion. Agorwyd dosbarth trochi dros dro newydd yn Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon ym mis Medi 2019. Ar ôl agor ysgol newydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli ym mis Medi 2021, adleolwyd y dosbarth trochi o Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon i Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli. Bydd yr ysgol a'r ganolfan drochi yn symud i'w safle parhaol ym Mhilgwenlli ym mis Ebrill 2025.

Pan agorwyd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i ddechrau yn 2016, cafwyd ychydig o geisiadau i dderbyn plant nad oeddent wedi bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'r blaen. I gefnogi hyn, fe wnaeth y Cyngor gaffael cymorth trochi gan ganolfan drochi uwchradd ddynodedig yn awdurdod lleol Caerdydd. Pan symudodd Ysgol Gyfun Gwent Is Coed i'w safle parhaol yn 2018, dyrannodd Cyngor Dinas Casnewydd gyllid yn uniongyrchol i'r ysgol i gefnogi trefniadau trochi lleol. Ym mis Medi 2020, sefydlodd yr ysgol ei dosbarth trochi penodol ei hun fel ffordd o feithrin capasiti, cefnogi lles disgyblion, a gwella enw da'r ysgol sy'n tyfu.

Nid oedd unrhyw ddisgyblion yn y canolfannau adeg yr arolygiad, er bod arolygwyr wedi cyfarfod â disgyblion yn eu hysgolion sydd wedi gadael y canolfannau yn ddiweddar. Yn ychwanegol, cyfarfu arolygwyr â staff canolfannau trochi yn y Gymraeg, rhieni a phenaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion.

## Crynodeb

Mae gan arweinwyr o fewn yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg, ac maent yn ymgysylltu'n llawn â'r holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Maent yn mynd ati i wrando ar randdeiliaid, ac ymateb iddynt, ac o ganlyniad, yn datblygu trefniadau trochi yn y Gymraeg yn llwyddiannus, yn unol â blaenoriaethau'r CSCA. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyrwyddo manteision addysg trochi yn y Gymraeg yn ehangach ar draws yr awdurdod lleol.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol wedi datblygu diwylliant ac ethos cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd a lles disgyblion trwy gyfrifoldebau arweinyddiaeth ddosbarthedig effeithiol. Trwy hyn, mae penaethiaid y canolfannau trochi yn ymwybodol o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu ac yn sicrhau bod gan staff ystod o ddysgu proffesiynol pwrpasol i gefnogi eu hanghenion. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr awdurdod lleol yn casglu adborth gan randdeiliaid ar y cynnydd a wna disgyblion ar ôl iddynt adael y canolfannau i'w helpu i fireinio'r ddarpariaeth, gyda ffocws penodol ar y cymorth trochi ôl ofal.

Mae athrawon wedi datblygu cwricwlwm clir a graddol i gefnogi medrau iaith disgyblion yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion ac maent yn cynorthwyo disgyblion yn frwdfrydig i wneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg, yn eu cynorthwyo'n dda â'u hanghenion emosiynol a chymdeithasol ac yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu trwy gymorth ac adnoddau allgymorth effeithiol. Maent yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn ystod o gyd-destunau diddorol o fewn y canolfannau ac yn yr ardal leol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn y canolfannau trochi yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn caffael y Gymraeg yn effeithiol. Maent yn falch o'u datblygiad yn y Gymraeg ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig â chyd-destunau amrywiol tra'n datblygu eu medrau'n llwyddiannus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r awdurdod lleol i barhau i wella:

A1 Hyrwyddo manteision addysg trochi yn y Gymraeg yn ehangach

A2 Defnyddio gwybodaeth gan ysgolion ar ôl i ddisgyblion adael y canolfannau i olrhain cynnydd y disgyblion hyn, a gwerthuso a mireinio'r ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu, dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau i fynd i'r afael â'r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd trwy'r broses arolygu. Dylai'r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

## Prif werthusiad

Mae gan arweinwyr yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer trefniadau trochi yn y Gymraeg. Maent wedi datblygu a rhannu'r weledigaeth hon ochr yn ochr â'r holl randdeiliaid. Yn ychwanegol, maent wedi sefydlu perthnasoedd gweithio effeithiol â rhanddeiliaid amrywiol. O ganlyniad, mae pob un o'r rhanddeiliaid yn teimlo'u bod yn rhan o gyfeiriad strategol yr awdurdod lleol.

**Ciplun: Perthnasoedd gweithio effeithiol â rhanddeiliaid**

Mae arweinwyr wedi datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol â rhanddeiliaid amrywiol i ddatblygu amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae pedwar is-grŵp (tyfu, ymgorffori, cynnwys a chynnal) yn cyfarfod bob tymor i yrru'r weledigaeth a rhoi'r CSCA ar waith. Mae pob un o'r rhanddeiliaid yn aelodau o bob is-grŵp ac yn gyrru newidiadau yn llwyddiannus yn yr awdurdod lleol. Er enghraifft, i hwyluso a gyrru'r weledigaeth ar gyfer addysg Gymraeg, mae'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â 'Dechrau'n Deg', wedi datblygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar gyferbyn â safle newydd Ysgol Nant Gwenlli a lleoliad y ganolfan trochi yn y Gymraeg. Yn ychwanegol, trwy ddatblygiadau'r is-grwpiau hyn, datblygwyd clybiau gwyliau i sicrhau bod disgyblion Cymraeg yn cael yr un cyfleoedd â disgyblion eraill.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol wedi datblygu diwylliant ac ethos cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd a lles disgyblion trwy gyfrifoldebau arweinyddiaeth ddosranedig effeithiol i benaethiaid a llywodraethwyr yr ysgolion y mae'r canolfannau wedi'u lleoli ynddynt. Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth buddiol ar gyfer penaethiaid y canolfannau cynradd ac uwchradd o ran recriwtio a datblygu staff. Yn ychwanegol, mae'r disgyblion o'r dosbarth trochi uwchradd wedi adrodd i lywodraethwyr ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r agweddau yr hoffent eu gwella, er enghraifft mwy o gymorth â geirfa allweddol mewn rhai pynciau. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion o'r farn fod arweinwyr yn gwrando ar eu hawgrymiadau. Mae'r penaethiaid yn rheoli'r canolfannau yn eu hysgolion eu hunain yn bwrpasol trwy sicrhau bod addysgu a dysgu a lles disgyblion yn cael lle blaenllaw yn eu gwaith.

Mae gan arweinwyr yr awdurdod lleol weithdrefnau cadarn i liniaru rhwystrau rhag dysgu ar gyfer disgyblion o fewn y canolfannau. Er enghraifft, maent yn darparu cludiant am ddim ar gyfer disgyblion ac yn sicrhau bod y pennaeth cynhwysiant yn rhan annatod o'r grŵp Fforwm Addysg Gymraeg. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o gynnydd disgyblion a'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion. Rhennir hyn yn llwyddiannus ag ysgolion ac athrawon. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yr awdurdod lleol yn casglu adborth gan randdeiliaid ar y cynnydd a wna disgyblion ar ôl iddynt adael y canolfannau i'w helpu i fireinio'r ddarpariaeth gyda ffocws penodol ar y cymorth trochi ôl ofal.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn rheoli'r trefniadau derbyniadau rhwng ysgolion a chanolfannau yn llwyddiannus trwy ymgysylltu'n bwrpasol â rhieni a datblygu trafodaethau gweithredol rhwng rhieni a phenaethiaid i drafod manteision addysg trochi yn y Gymraeg. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r drefn i hyrwyddo addysg trochi yn y Gymraeg yn ehangach ar draws yr awdurdod lleol.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn nodi cryfderau ac yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella yn drylwyr trwy ddatblygu partneriaethau llwyddiannus â rhanddeiliaid. Maent yn gwrando ar eu barn ac yn datblygu camau gweithredu yn unol â blaenoriaethau'r CSCA. Mae systemau cadarn ar waith i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau ym mhob cam. Er enghraifft, ar ôl prosesau hunanwerthuso, nododd arweinwyr yr awdurdod lleol fod angen sefydlu canolfan unigol sydd ar gael i'r clwstwr yn hytrach na chymorth trochi ym mhob ysgol. Nododd rhanddeiliaid y byddai hyn yn cefnogi cynnydd a lles disgyblion yn well trwy ganiatáu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithio gyda chyfoedion.

Mae gan benaethiaid ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r trefniadau trochi yn y Gymraeg a'r meysydd i'w datblygu yn y canolfannau cynradd ac uwchradd ar ôl prosesau hunanwerthuso trylwyr. Mae'r prosesau hyn yn rhan o weithdrefnau hunanwerthuso pob canolfan yn unigol. Maent yn herio meysydd i'w datblygu yn bwrpasol a gwneir newidiadau i sicrhau gwelliannau pwysig mewn addysgu a dysgu. Er enghraifft, yn y ganolfan gynradd, diwygiwyd y cynllunio i sicrhau dilyniant medrau mewn llafaredd, a arweiniodd at welliannau yn y ddarpariaeth a gostyngiad yn y ddibyniaeth ormodol ar daflenni gwaith.

Mae penaethiaid yn sicrhau bod staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr. Maent yn hyrwyddo diwylliant cryf o waith tîm a chydlyniant ymhlith staff ar draws y canolfannau a staff ehangach yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion dysgu proffesiynol staff wedi'u cysylltu â'u hamcanion rheoli perfformiad yn bwrpasol, yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol y cwricwlwm a diwygio anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinwyr yr awdurdod lleol yn rheoli cyllid yn ystyriol ac yn dyrannu cyllid i gefnogi gwelliant yn effeithiol. Gyda chymorth y penaethiaid, maent yn monitro'r gyllideb yn ddarbodus ac yn cynorthwyo dysgwyr a staff i sicrhau bod ganddynt adnoddau o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion dysgwyr yn y ffordd orau. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod staff yn cael amser i gynhyrchu adnoddau addysgu gwerthfawr i gefnogi datblygiad y Gymraeg yn yr holl ysgolion clwstwr.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu tra byddant yn y canolfannau. Dywed llawer ohonynt eu bod yn hapus iawn yn y canolfannau a'u bod yn parchu'r oedolion sy'n eu cynorthwyo i ddysgu iaith newydd. Ceir diwylliant diogelu cryf o fewn y canolfannau ac mae prosesau clir ar waith i ddiogelu'r holl ddisgyblion.

Mae'r canolfannau'n gymuned gynhwysol a chroesawgar. Rhoddir pwyslais cryf ar annog disgyblion i ofalu am ei gilydd ac ar hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a chael ffordd iach o fyw. Er enghraifft, mae'r disgyblion cynradd yn defnyddio caffi'r dosbarth i roi eu byrbryd iach dyddiol i ddisgyblion eraill yr ysgol. Yn ychwanegol, mae'r canolfannau'n cynnig darpariaeth bwrpasol i ddatblygu medrau corfforol disgyblion trwy weithgareddau wythnosol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ffordd iach o fyw ochr yn ochr â hyrwyddo datblygiad y Gymraeg mewn cyd-destunau pwrpasol.

Dywed penaethiaid a staff fod bron pob un o'r disgyblion yn mynychu'r canolfannau trochi yn rheolaidd. Maent yn teimlo'n hapus a saff ac yn dweud eu bod yn cael gwiriadau dyddiol i gefnogi eu lles. Er enghraifft, caiff disgyblion cynradd amser

myfyrio dyddiol i drafod eu teimladau a'u hemosiynau, ac mae'r disgyblion uwchradd yn mynychu cofrestru dyddiol gyda gweddill eu grŵp blwyddyn. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i ddysgu a'u hagweddau at ddysgu.

Ceir cymorth addas ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn y canolfannau. Mae trefniadau pontio pwrpasol ar waith i gynorthwyo'r holl ddisgyblion, er enghraifft trwy ddarpariaeth estynedig, ymweliadau ac adnoddau. Mae staff yn rhannu gwybodaeth yn rheolaidd â rhieni am gyflawniad a chynnydd eu plant, a cheir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau cyfnod pontio hapus i'w hysgolion lletyol.

Mae'r canolfannau trochi yn y Gymraeg yn defnyddio canllawiau effeithiol i gynorthwyo disgyblion yn y camau nesaf yn eu datblygiad. Er enghraifft, yn y sector uwchradd, mae athrawon yn defnyddio strategaethau ysgol gyfan i gefnogi medrau ysgrifennu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyder a hunan-barch disgyblion wrth iddynt gaffael medrau ieithyddol newydd.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn y canolfannau trochi yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn ac yn caffael y Gymraeg yn effeithiol. Dros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt, yn magu hyder yn eu medrau siarad Cymraeg. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel i drochi'r disgyblion o bob cefndir ieithyddol, ac yn llawn egni a brwdfrydedd wrth gynorthwyo'r disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd yn eu medrau Cymraeg.

Yn y sector cynradd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd yn dda trwy ystod o weithgareddau hwyliog a phwrpasol. Er enghraifft, mae disgyblion yn dylunio cwrs rhwystrau ar gyfer y disgyblion ieuengaf ac yn rhoi cyfarwyddiadau iddynt gan ddefnyddio berfau gorchmynnol fel 'lonciwch, cerddwch a sefwch'. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu medrau llafar ac yn eu defnyddio â hyder cynyddol mewn amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd, er enghraifft trwy weithgareddau chwarae rôl ac ymweliadau yn yr ardal leol. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eu cyd-ddisgyblion wrth fynegi barn a datblygu eu syniadau. Maent yn defnyddio brawddegau agoriadol wedi'u darparu gan eu hathrawon yn effeithiol i ddatblygu eu medrau llafar. Mae athrawon, ar draws y ddau sector, yn defnyddio dulliau drama yn bwrpasol i ddatblygu ac ymestyn geirfa mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo dychymyg disgyblion yn fedrus. Mae hyn yn rhan annatod o'r ddarpariaeth, sy'n herio disgyblion i ddatblygu a gwella'u medrau llafar a chydweithio.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae llawer ohonynt yn datblygu'r hyder i ddarllen testunau sy'n addas ar gyfer eu cyfnod datblygu gydag annibyniaeth gynyddol. Mae disgyblion yn darllen nofelau a thestunau ffeithiol, a thrwy wneud hynny, yn cael pleser o ddarllen. Yn y sector uwchradd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau trwy ddarllen testunau mwy heriol a thrwy ymateb i gwestiynau sy'n datblygu eu medrau dod i gasgliad, rhagfynegi, cyfosod a gwerthfawrogi, er enghraifft trwy ddarllen a dehongli testun ynghylch 'Gwylliaid Cochion Mawddwy'. Mae disgyblion hŷn hefyd yn datblygu eu medrau trawsieithu yn llwyddiannus wrth gwblhau tasgau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn darllen testun mewn un iaith ac yn coladu gwybodaeth berthnasol mewn iaith arall yn hyderus i ysgrifennu pamffled am y prif atyniadau yng Nghasnewydd. Mae'r medrau hyn yn galluogi'r disgyblion i ddatblygu i fod yn

ddysgwyr medrus ac uchelgeisiol sy'n gallu defnyddio'r ddwy iaith yn hyderus y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall budd dysgu Cymraeg, ac yn siarad yn hyderus am bwysigrwydd bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog.

Mae athrawon yn cynllunio datblygiad medrau Cymraeg pob grŵp o ddysgwyr mewn gwrando, siarad, darllen ac ysgrifennu yn raddol. Mae addysgu themâu penodol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, o fewn uned waith ar y testun 'Pobl sy'n ein Helpu Ni', mae dysgwyr yn datblygu eu medrau digidol yn bwrpasol i greu animeiddiad o ddeialog mewn meddygfa.

Mae disgyblion yn cyfrannu eu syniadau'n llwyddiannus am sut hoffent atgyfnerthu eu dysgu, ac yn datblygu eu dealltwriaeth o eirfa a phatrymau cystrawennol newydd ymhellach. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau creadigol yn yr ardal awyr agored i greu portread o ddeunyddiau naturiol, ac yn siarad yn hyderus am nodweddion penodol gan ddefnyddio geirfa a phatrymau iaith newydd y maent wedi'u caffael. Mae'r cyfleoedd hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gweld bod y cwricwlwm yn berthnasol iddyn nhw.

Mae athrawon a phenaethiaid yn y canolfannau yn monitro cynnydd y disgyblion yn drylwyr ac yn defnyddio asesu mewn modd pwrpasol ac amserol i lywio cynllunio eu camau nesaf. Defnyddir y wybodaeth hon yn llwyddiannus i ddarparu gweithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i wneud mwy o gynnydd yn eu medrau iaith a llythrennedd.

Dywed athrawon a disgyblion fod bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn y canolfannau trochi. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â rolau arwain mewn dosbarthiadau eraill fel eu bod yn gallu ymestyn eu medrau Cymraeg ymhellach, er enghraifft trwy ddarllen storïau i'r disgyblion ieuengaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o ddiwrnodau ac wythnosau Cymreig, er enghraifft Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Miwsig Cymru. Mae hyn yn ymestyn dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r Gymraeg mewn bywydau bob dydd, a bod gwerth a statws i'r iaith. Gwahoddir beirdd, awduron a cherddorion enwog o Gymru i'r clwstwr i rannu eu doniau fel rhan o'r gweithgaredd 'Rhigwm a Rap'. Mae hyn yn darparu profiad bywyd go iawn i ysbrydoli dealltwriaeth y disgyblion o werth y Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at gaffael y Gymraeg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff, arweinwyr, a phenaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- yn cyfarfod â disgyblion (cyfredol a chyn ddisgyblion) i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol o waith y darparwr
- yn cyfarfod â staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso
- yn ystyried Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)/ cynllun gwella ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr awdurdod lleol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r pwyllgor rheoli, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  10/07/2024